Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014-15

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru


**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 606A2015

# Statws yr adroddiad

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o waith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r drefn y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Ann-Marie Harkin,Matthew Coe, Andy Bruce, a Gareth Lucey.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r adroddiad | |
| Rhagarweiniad | 4 |
| Cyhoeddais farn ddiamod am ddatganiadau ariannol 2014-15 Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu | 4 |
| Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod eu hadnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. | 6 |
| Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod gwaith archwilio'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 8 Hydref 2015. | 9 |
| Atodiadau | |
| Risgiau sylweddol wrth archwilio | 10 |
| Meini prawf i asesu'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol | 12 |

# Crynodeb o'r adroddiad

## Rhagarweiniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau yn sgil y gwaith archwilio yr wyf wedi'i wneud mewn perthynas â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Phrif Gwnstabl De Cymru yn ystod 2015.

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn caniatáu imi gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon a threfniadau'r ddwy gorfforaeth unigol er mwyn sicrhau eu bod yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**3.** Mae rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad i'w gweld yn yr adroddiadau ar wahân yr wyf wedi'u cyhoeddi yn ystod y flwyddyn. Bu fy nhîm yn trafod yr adroddiadau hyn â swyddogion gan gytuno arnynt a'u cyflwyno i'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'r Cydbwyllgor Archwilio. Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015 yn nodi'r risgiau ariannol sylweddol ar gyfer 2015 a dangosir sut y rhoddwyd sylw i'r rhain fel rhan o'r archwiliad yn Atodiad 1.

## Cyhoeddais farn ddiamod am ddatganiadau ariannol 2014-15 y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu

**4.** Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn Ne Cymru (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru (y Prif Gwnstabl) roi cyfrif am eu stiwardiaeth dros yr adnoddau sydd ar gael iddynt a'u perfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Cyfrifoldeb y corff a archwilir yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau bod y trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion perthnasol.

**5.** Mae gofyn imi archwilio'r datganiadau ariannol a chyhoeddi adroddiadau archwilio sy'n cynnwys barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg 'gwir a theg' o faterion y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Mae'r adroddiadau hefyd yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu i Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 a'r rheoliadau perthnasol.

**6.** Ar 30 Medi 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu.

7. Cawsom yr holl ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar 30 Mehefin 2015, sy'n unol â'r dyddiad cau y cytunwyd arno. Serch hynny, roedd y cyfrifon drafft hyn yn aros am wybodaeth ynghylch incwm a gwariant a darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn unswm wedi'u hôl-ddyddio. Darparwyd y wybodaeth hon wedyn a'i chofnodi yn y cyfrifon.

8. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Ein casgliad oedd bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu'n briodol bod datgeliadau'r datganiad ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn eglur.

9. Ni chafwyd unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Cawsom wybodaeth yn brydlon a chawsom gymorth i wneud ein gwaith heb gael ein cyfyngu. Yn 2013-14, nodwyd nifer o ddiffygion yn y broses o baratoi'r cyfrifon a rhoddodd y rheolwyr gynllun gweithredu manwl ar waith i fynd i'r afael â hwy. Roedd ansawdd cyfrifon drafft 2014-15 a gyflwynwyd i'w harchwilio wedi gwella'n sylweddol ers y blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu'r gwaith ychwanegol sylweddol yr oedd y rheolwyr a'r staff wedi'i wneud fel rhan o broses gau ddiwedd y flwyddyn.

10. Un maes a oedd yn berthnasol ac yn arbennig o gymhleth yr oedd angen rhoi sylw penodol iddo, oedd y rhwymedigaeth ar Gronfa Bensiwn yr Heddlu yn sgil diweddaru taliadau unswm hanesyddol i bensiynwyr a ymddeolodd rhwng 2001 a 2006. Canlyniad newidiadau i ffactorau cymudo hanesyddol a oedd yn berthnasol i bob heddlu oedd hyn. Roedd y datganiadau a gyflwynwyd i'w harchwilio wedi cynnwys yn gywir ddarpariaeth ar gyfer yr eitem hon a gafodd ei diweddaru pan ddaeth mwy o wybodaeth i law gan adran actwari'r llywodraeth ym mis Gorffennaf 2015. Daethom i'r casgliad bod y ddarpariaeth wedi'i diweddaru a gynhwyswyd yn y cyfrifon yn amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaethau posibl.

11. Mae Safon Archwilio Rhyngwladol 260 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr roi adroddiad i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu sy'n cynnwys canfyddiadau'r archwiliad o'r datganiadau ariannol. Cyflwynwyd yr Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac i'r Cydbwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod ar 29 Medi 2015. Rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl

| Gofyniad adrodd | Canfyddiadau'r archwiliad |
|---|---|
| Addasiadau i adroddiad yr archwilydd | Nid oes angen unrhyw addasiadau. |
| Camddatganiadau heb eu haddasu | Nodwyd un camddatganiad a oedd heb ei gywiro. Nid oedd effaith lawn rhannu'r buddion yn sgil cydweithredu wedi'i dangos yn y cyfrifon. Roeddem yn fodlon nad oedd effaith net y £526,000 yn berthnasol o ran deall y cyfrifon, ond argymhellwyd y dylid cael y wybodaeth hon yn gynharach yn y dyfodol a'i hadlewyrchu'n llawn yng nghyfrifon drafft 2015-16 cyn eu trosglwyddo i'w harchwilio. |

| Gofyniad adrodd | Canfyddiadau'r archwiliad |
|---|---|
| Barn am agweddau ansoddol arferion cyfrifyddu'r endid a'i adroddiadau ariannol. | Nid adroddwyd am unrhyw faterion. |
| Materion y gohebwyd â'r rheolwyr yn eu cylch | 2014-15 oedd y flwyddyn gyntaf lle'r oedd gofyn i'r cyfrifon ddatgelu'r gymhareb rhwng tâl y Prif Weithredwr a'r Prif Gwnstabl a chanolrif tâl y swyddogion a'r staff. Nodwyd bod angen mireinio cyfrifiadau'r cymarebau ar gyfer 2015-16. Nid adroddwyd am unrhyw faterion sylweddol eraill. |
| Materion sy'n arwyddocaol o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol | Nid adroddwyd am unrhyw faterion. |
| Gwendidau sylweddol o ran rheolaethau mewnol | Ni nodwyd unrhyw wendidau sylweddol. |
| Materion y mae'n ofynnol eu cyfleu wrth y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn unol â safonau archwilio eraill. | Nid adroddwyd am unrhyw faterion. |

## Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod eu hadnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**12.** Seiliwyd fy ystyriaethau ynghylch trefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio sydd wedi'i wneud ar y cyfrifon. Rwyf hefyd wedi dibynnu ar ganlyniadau'r gwaith archwilio a wnaethpwyd ar systemau rheolaeth fewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, fel yr adroddwyd yn eu cylch yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiadau yn eu cylch; canlyniadau'r gwaith a wnaethpwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol; canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. Cyllid a Thollau EM, lle'r oedd y rheini'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac unrhyw waith arall, gan gynnwys gwaith sy'n deillio o'r Archwiliad Mewnol, yr oeddwn yn ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau.

**13.** At ddibenion fy ngwaith, gwerthuswyd systemau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar sail nifer o gwestiynau. Manylir ar y dull hwn yn Atodiad 2. Ar gyfer pob cwestiwn, byddaf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

**14.** Yng Nghynllun Archwiliad 2015 ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, dywedwyd y byddai ein rhaglen waith ar gyfer perfformiad yn canolbwyntio ar adolygu effeithiolrwydd trefniadau cydweithio a phartneriaethau’r Comisiynydd, gan roi'r sylw pennaf i weithgareddau Diogelwch Cymunedol. Mae'r adolygiad o ddiogelwch cymunedol ar lefel y llu yn rhan o astudiaeth genedlaethol a gynhelir ar lefel Cymru gyfan (Llywodraeth Cymru), ar lefel ranbarthol (ardal y Comisiynydd) ac ar lefel leol (awdurdod lleol/Partneriaeth Diogelwch Cymunedol). Er ein bod wedi cwblhau ein gwaith maes lleol yn Ne Cymru, bydd ein canfyddiadau hefyd yn cael eu llywio gan ffrydiau gwaith eraill o fewn yr astudiaeth genedlaethol sydd heb eu cwblhau eto. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys dadansoddi data, arolygon ymhlith y cyhoedd ac aelodau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a gwaith maes gydag awdurdodau lleol, partneriaethau a Llywodraeth Cymru. Ac ystyried hyn, bydd y gwaith ategol yn ychwanegu gwerth sylweddol at ein gwaith lleol drwy ddarparu tystiolaeth a safbwyntiau ychwanegol gan ystod eang o randdeiliaid yn Ne Cymru.

**15.** Pan gaiff y gwaith ychwanegol hwn ei gwblhau ddechrau 2016, byddwn yn cyhoeddi adroddiad i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cynnwys ein canfyddiadau lleol am waith partneriaeth diogelwch cymunedol, gan ystyried canfyddiadau ehangach tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth genedlaethol. Cyhoeddir ein hadroddiad cenedlaethol yn ystod 2016 a bydd yn cynnig casgliadau am waith yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â rheoli diogelwch cymunedol yng Nghymru.

**16.** Ar sail Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, canlyniadau’r gwaith a wnaethpwyd fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2014-15, a'r holl wybodaeth arall rwyf wedi'i hystyried yn berthnasol, rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau ar waith yn ystod y flwyddyn i'w gynorthwyo'n briodol i gyflawni ei gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn defnyddio'u hadnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Ar sail y gwaith sydd wedi'i wneud yn unig, rwyf wedi codi amrywiol faterion er mwyn gwella trefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac wedi gwneud argymhellion iddynt.

## Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i heriau ariannol sylweddol.

**17.** Yn 2015-16, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i gael adroddiadau rheolaidd gan y Prif Swyddog Ariannol a'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau am wariant ac am y sefyllfa o'i chymharu â'r gyllideb. Darperir y wybodaeth hon ar gyfer y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad hefyd. Roedd y sefyllfa yr adroddwyd yn ei chylch hyd at 31 Awst 2015 yn dangos bod y Comisiynydd ar y trywydd iawn i wireddu'r holl gynlluniau effeithlonrwydd gwerth £7.5 miliwn sy'n ofynnol yn 2015-16.

**18.** Serch hynny, mae pwysau cynyddol i ganfod arbedion sy'n cyfateb i'r diffyg ariannol cronnus a ragwelir sef £71.0 miliwn hyd at 31 Mawrth 2019 a ddynodwyd yn Adolygiadau Cynhwysfawr o Wariant 2010 a 2013. Llwyddwyd i arbed /gostwng y costau £32.0 miliwn hyd at 31 Mawrth 2015, gan gynnwys arbed £5.3 miliwn yn 2014/15. Rhagwelir y bydd gofyn arbed £39.0 miliwn dros y pedair blynedd nesaf.

**19.** Fel rhan o'n harchwiliad, byddwn yn ystyried effeithiolrwydd y rheolaethau a'r prosesau sydd ar waith i'r Comisiynydd a'r staff i fonitro cyllidebau a'r sefyllfa ariannol

gyffredinol. Nid oedd ein gwaith yn nodi unrhyw wendidau sylweddol yn y rheolaethau neu'r prosesau cyllidebol a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr yn ystod y flwyddyn.

## Mae Heddlu De Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r dyfodol

**20.** Yn ein rhaglen sy'n cydredeg â gwaith Cyllid a Thollau EM casglwyd tystiolaeth ar y cyd i weld a yw'r rhaglenni arbed yn sicrhau newidiadau cadarnhaol a mesuradwy tuag at wasanaeth heddlu cynaliadwy.

**21.** Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Cyllid a Thollau EM ei ail asesiad o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a dilysrwydd yr heddlu (PEEL) ar gyfer pob heddlu drwy Gymru a Lloegr, gan grynhoi canfyddiadau arolygiadau'r 12 mis blaenorol gan Gyllid a Thollau EM. Eu casgliadau cyffredinol oedd bod Heddlu De Cymru'n barod iawn i wynebu ei heriau ariannol yn y dyfodol. Drwy drefniadau rheoli ariannol cadarn ac ymrwymiad i wella parhaus, mae'r Heddlu wedi llwyddo i ostwng ei wariant dros y cyfnod adolygu gwariant diwethaf, ac mae'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer heriau ariannol y dyfodol. Yn benodol:

- Mae trefniadau Heddlu De Cymru ar gyfer cyfatebu adnoddau â'r galw'n creu argraff, ac mae wedi buddsoddi'n sylweddol i asesu'r galwadau a fydd arno.
- Mae model gweithredu presennol yr Heddlu, a roddwyd ar waith yn 2010, wedi gweithio'n dda iawn. Drwy fuddsoddi mewn technoleg newydd, llwyddodd i ostwng nifer yr unedau rheoli sylfaenol o chwech i bedair, a'r tîm plismona yn y gymdogaeth o 30 i 19.
- Mae gan yr Heddlu hanes cryf o lwyddo ym maes rheolaeth ariannol ac mae mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'r gofynion ariannol sydd arno ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Mae Heddlu De Cymru wrthi'n frwd yn mynd ar drywydd pob cyfle i sicrhau arian ychwanegol, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn yn gwneud hynny.

**22.** Mae rhagor o fanylion am fethodoleg PEEL a chasgliadau asesu manwl PEEL sy'n berthnasol i Heddlu De Cymru ar gael ar wefan Cyllid a Thollau EM yn www.justiceinspectoratesgov.uk/hmic/.

**23.** Mae'r adolygiadau a gynhaliwyd gan Gyllid a Thollau EM yn ategu fy nghasgliadau am y trefniadau i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol. Rwy'n parhau i herio a chynorthwyo uwch swyddogion a staff drwy ein trafodaethau parhaus am gynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn ac yn y dyfodol.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod gwaith archwilio'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 8 Hydref 2015

**24.** Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod gwaith archwilio'r cyfrifon ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi'i gwblhau ar 8 Hydref 2015.

**25.** Rwyf hefyd wedi cwblhau'r archwiliad o ddatganiad Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, ac wedi cyflwyno'r datganiad archwiliedig i dîm archwilio canolog Swyddfa Archwilio Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol, sef 2 Hydref 2015. Roedd y datganiad wedi'i gwblhau'n dda ar y cyfan ac nid oedd unrhyw faterion o sylwedd i adrodd amdanynt.

**26.** Amcangyfrifais yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol mai'r ffi archwilio ar gyfer 2014-15 fyddai £111,599. Mae'r ffi archwilio wirioneddol yn unol â'm hamcangyfrif gwreiddiol.

# Atodiad 2

## Risgiau sylweddol wrth archwilio

Mae fy Nghynllun Archwilio 2015 yn cynnwys ymdrin â risgiau sylweddol wrth gynnal archwiliad ariannol ar gyfer 2015. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn gan ddweud sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risgiau sylweddol | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a gwblhawyd a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg bod rheolwyr yn gwrth-wneud rheolaethau'n bodoli ym mhob endid. Oherwydd y gallai gwrth-wneud fel hyn ddigwydd mewn ffordd nad oes modd ei rhagweld, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio:<br>• yn profi pa mor briodol yw cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• yn adolygu'r amcangyfrifon cyfrifyddu i weld a oes tuedd;<br>• yn gwerthuso'r rhesymwaith dros unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i gwrs arferol y busnes. | Ni nodwyd unrhyw faterion yn sgil ein hadolygiad nac wrth inni brofi'r cofnodion yn y dyddlyfrau. Ni nodwyd unrhyw faterion mewn perthynas ag amcangyfrifon sylweddol eraill yn y cyfrifon. |
| Mae incwm a gwariant ychwanegol yn ddyledus yn 2014-15 sy'n berthnasol i blismona uwchgynhadledd NATO. Bydd angen rhoi cyfrif am hyn a'i ddatgelu'n gywir yn y datganiadau ariannol.<br>Yn yr un modd, bydd angen adlewyrchu unrhyw newidiadau'n dilyn trosglwyddiad Cyfnod 2 rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gywir yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio'n profi'n benodol y gwariant ychwanegol sy'n berthnasol i NATO ac yn cytuno â'r rheolwyr ynghylch y ffordd gywir o gyfrifyddu a datgelu'r manylion ar gyfer y digwyddiad hwn a throsglwyddiad Cyfnod 2. | Ni nodwyd unrhyw faterion yn sgil ein profion a'r datgeliadau priodol o fewn y cyfrifon. |
| Mae newid y diffiniad o weithrediadau sy'n cael eu rheoli ar y cyd o fewn y Cod a rheoliadau archwilio, yn golygu y gall fod angen cynnwys gweithgareddau ychwanegol o hyn ymlaen mewn datgeliadau ynghylch cydweithio. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar holl gyrff llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. | Byddaf yn gweithio gyda chyrff yr heddlu yng Nghymru i gytuno ar set gyffredin o egwyddorion a ffordd gyson o gydnabod a datgelu hyn yn y datganiadau ariannol. | Addaswyd datganiadau ariannol 2014-15 i adlewyrchu cyfran y budd yn sgil gweithrediadau cydweithredol, ond mae rhagor o waith i'w wneud i fireinio'r cyfrifiadau ac i ddarparu'r wybodaeth hon yn gynharach ym mhroses y cyfrifon drafft. |

| Risgiau sylweddol | Ymateb arfaethedig yr archwiliad | Gwaith a gwblhawyd a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae nifer o faterion parhaus sy'n gysylltiedig â phensiynau wedi cael eu hegluro, gan gynnwys sut y caiff didyniadau o bensiwn afiechyd y Lwfans Cymorth Cyflogaeth eu trin, a'r oedran ar gyfer pensiwn gwarchodedig. | Bydd fy nhîm archwilio'n cysylltu â'r rheolwyr ynghylch y materion hyn o ran y sefyllfa diwedd blwyddyn gan sicrhau eu bod yn cael eu datgelu'n briodol a chyfrif priodol ohonynt yn y datganiadau ariannol. | Mae datganiadau ariannol 2014-15 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amcangyfrif rhesymol o daliadau unswm wedi'u hôl-ddyddio. Mae datgeliadau priodol wedi'u gwneud yn y datganiadau ariannol. |
| Mae angen i'r datganiadau ariannol gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u staff:<br>• sicrhau bod pob set o gyfrifon yn cael eu paratoi i adlewyrchu'n briodol sylwedd trefniadau cadw rheolaeth ar dros weithgareddau o ddydd i ddydd yn ogystal â'r sefyllfaoedd cyfreithiol;<br>• deall yn llwyr ofynion IFRS, gan sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ganddynt am y gofynion newydd a bod risgiau a materion yn cael eu nodi ac yn cael eu trin yn briodol. | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u staff ac yn cynorthwyo i gytuno ar y ffordd fwyaf priodol o gyflwyno'r ddwy set o ddatganiadau ariannol a'r datganiadau grŵp.<br>Byddwn hefyd yn cytuno ar welliannau i'r fethodoleg a'r papurau gweithio sy'n gefn i'r datganiadau ariannol, lle bydd angen. | Cyflwynwyd amrywiol welliannau i'r datgeliadau yn y cyfrifon. Cafwyd gwelliannau sylweddol i broses cynhyrchu cyfrifon ac archwilio 2014-15 a arweiniodd at lai o newidiadau i'r cyfrifon drafft. |
| Mae modiwl cyflogres newydd yn cael ei rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn fel rhan o system FIRMS. Y bwriad yw prosesu cyflogres Mawrth 2015 drwy'r modiwl newydd a phostio cofnodion o'r modiwl hwnnw i'r priflyfr cyffredinol. | Os defnyddir y modiwl newydd i fewnbynnu gwybodaeth Mawrth 2015 i'r priflyfr cyffredinol, byddwn yn profi lanlwytho'r data er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn gywir. | Ni nodwyd unrhyw faterion yn sgil profi gwariant y gyflogres yn ystod y flwyddyn. |
| Mae'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi darparu nifer o ffrydiau ariannu ar gyfer y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. | Byddwn yn cymharu'r cronfeydd ychwanegol hyn â'r dogfennau gwreiddiol, yn dilysu eu bod wedi'u dosbarthu'n gywir ac yn sicrhau bod cyfrif cywir amdanynt yn y cyfrifon. | Ni nodwyd unrhyw faterion yn sgil profi incwm/ariannu'r Comisiynydd. |

# Meini prawf i asesu'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol

| Trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad corfforaethol a rheolaeth ariannol | Cwestiynau ynglŷn â'r trefniadau |
|---|---|
| **Sefydlu amcanion ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i bennu ac adolygu ei amcanion strategol a gweithredol a'u rhoi ar waith? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi sianelau cyfathrebu ar waith gyda'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro ar waith i sicrhau bod y prif negeseuon am wasanaethau'n cael eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiadau posibl o'u cymharu ag amcanion strategol, safonau a thargedau, i weithredu lle bydd angen ac adrodd i'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Cydymffurfio â pholisïau sefydledig** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system reolaeth fewnol gadarn, gan gynnwys y rheini ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli risgiau sylweddol i'r busnes? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian a gaiff wrth ddefnyddio adnoddau? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael iddo? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli a monitro perfformiad o'i gymharu â chyllidebau, gan gymryd camau cywiro lle bydd hynny'n briodol, ac adrodd am y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiadau posibl o'u cymharu ag amcanion strategol, safonau a thargedau, i weithredu lle bydd angen? |
| | A yw'r Comisiynydd/ Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith sydd wedi'u cynllunio i hybu a sicrhau uniondeb a phriodoldeb wrth iddo gyflawni ei fusnes? |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru